# Dyma gyfarfod hyfryd iawn...

Yn ystod y cyfnod hwn gwerthfawr yw oedi a threulio amser yn myfyrio ar air Duw yng nghwmni'n gilydd.
Yr ydym yn dilyn awgrymiadau gan y Llithiadur Diwygiedig Cyffredin.

## Y Bugail Da

**GWEDDI**

Arglwydd, wrth dy draed o dysg i mi, beth wyf fi, a phwy wyt ti. Gad i mi ganfod o'r newydd mawredd dy ogoniant, ysblander dy sancteiddrwydd, grym dy allu, haelioni dy drugaredd yn Iesu Grist. Tyrd atom drwy'r Ysbryd Glân. Amen.

**EMYN – Caneuon Ffydd 62**
**Yr Arglwydd yw fy Mugail da**

Mae nifer o ddarlleniadau gennym heddiw. Byddai cael Beibl o'ch blaen yn cyfoethogi'r munudau nesaf. – Salm 23 – Ioan 10:1-10; Actau 2:42-47; 1 Pedr 2:19-25 -

**MYFYRDOD**

Wrth i dymor wyna ddirwyn i ben byddwn sy'n ddigon ffodus i fyw yng nghefn gwlad yn sylwi ar y miloedd o ŵyn bach yn prancio yn heulwen y gwanwyn. Cawn ein cymell unwaith yn rhagor i godi'n het i anrhydeddu'r bugeiliaid hynny a dreuliodd oriau yn gwylied eu praidd liw nos. Mae'r ŵyn, bob un ohonynt, yn dystiolaeth i'w dawn, eu hadnabyddiaeth o'u praidd eu doniau a'i hymroddiad.

Yn y Beibl mae gofal yr Arglwydd Dduw o'i bobl yn cael ei gymharu â gofal bugail.

**Darllen – Salm 23**

Yn Salm 23 cawn ein cyflwyno i'r Arglwydd sy'n Fugail. Ef yw'r un sy'n ein tywys i borfeydd gwelltog, a'n harwain ar hyd llwybrau cyfiawnder. Ef yw'r un nad yw'n ffoi pan gerddwn "glyn cysgod angau" ond sy'n darparu gwledd gerbron ein gelynion. Ef sy'n sicrhau bod daioni a thrugaredd yn ein canlyn fel bod diwedd ein taith daearol byrhoedlog yn baratoad – mae'n preswylfa yn nhŷ yr Arglwydd yn dragwydd. A rhyfeddod ein ffydd yw y gallwn ddweud mai yr Arglwydd yw "fy Mugail." Nid mewn egwyddor, nid trwy ddefod, ond trwy berthynas a thrwy adnabyddiaeth.

Pan drown i'n darlleniad nesaf gwelwn fod gan yr Arglwydd hwnnw enw!

**Darllen – Ioan 10:1-11**

Os yw addewidion Duw i fod yn fugail gofalus o'i bobl yn rhyfeddol mae geiriau Iesu yn y darlleniad yr un mor rhyfeddol. Yma mae'n uniaethu ei hun, yn mynnu mai ef ei hun yw'r bugail hwnnw. Lladron ac ysbeilwyr yw pawb arall, meddai, nad ydynt yn fodlon nesáu at Dduw drwyddo ef. Ef wedi'r cwbl yw'r "drws" hefyd. Mae'n fugail sy'n adnabod ei braidd, ac y mae ei bobl yn adnabod ei lais ac yn ei ganlyn wrth iddo eu "harwain hwy allan" i ddod o hyd i borfa. Daeth, meddai, er mwyn i'w bobl fwynhau Bywyd – bywyd yn ei holl gyflawnder. Ef yw'r Bugail da  cyflawnder yr addewidion a chyflawniad yr addewidion.

Ond pa fath o fywyd yw'r bywyd hwn? Pa wahaniaeth mae o'n ei wneud i ni? Sylwch wrth i ni ddarllen am hanes yr Eglwys Fore sut y mae cred ac arferiad yn cael eu trawsffurfio ym mhresenoldeb Iesu Grist.

**Darllen – Actau 2:42-47**

Yn ddiweddarach yn ei yrfa ysgrifennodd Pedr at y Cristnogion oedd ar wasgar, rhai oedd yn wynebu erledigaeth a gwrthwynebiad i'w ffydd a'u gwerthoedd. Yn ei lythyr mae am iddynt ymgorffori "gostyngeiddrwydd". Mae canlyniadau pendant meddai o droi at y bugail "a ddygodd ein pechodau yn ei gorff ar y croesbren er mwyn i ni ddarfod â'n pechodau a byw i gyfiawnder."

Ac nid yw ei eiriau'n gorwedd yn esmwyth ar ein clyw na'n calon heddiw.

**Darllen – 1 Pedr 2:18-25**

Cafodd disgyblion Iesu ein "hiachau" drwy ei archoll ef. Cawsom ni, oedd ar ddisberod ein gwahodd "at Fugail a gwarchodwr eich eneidiau." Ond y mae ei wahoddiad hefyd yn heriol. Roedd ei ddioddefaint yn "esiampl" o sut i ymddwyn mewn cynni ac erledigaeth. Nid oedd yn difenwi, nac yn bygwth ond yn cyflwyno'i hun i'r barnwr cyfiawn.

Beth tybed yw oblygiadau hyn yn ein bywydau ni?

**GWEDDI**

Arglwydd, diolch mai Ti yw'r bugail da, mewn bywyd a llawnder, mewn dyffrynnoedd tywyll a galar. Diolch dy fod wedi addo bod gyda ni. Ti yw'r bugail da sy'n rhoi dy fywyd trosom. TI yw'r Arglwydd da a ddaeth er mwyn i ni gael bywyd cyflawn, bywyd tragwyddol ei sylwedd a'i barhad. Caniatâ i ni fedru dweud amdanat "Yr Arglwydd yw fy mugail."

Arglwydd gwyddom beth yw'r ymdeimlad o fod ar goll, ar ddisberod, heb glywed nac adnabod dy lais. Gweddïwn dros ein calonnau ein hunain, dros ein cynulleidfaoedd, ein bröydd a'n cenedl y cawn ddysgu o'r newydd adnabod dy lais ac i droi atat.

Ond gweddïwn hefyd am y gallu i fyw i'r "hyn y'n galwyd" i fywyd sy'n gymeradwy gan Dduw. Maddau i ni ein dyledion. Yr ydym ninnau hefyd am faddau i'r bobl rheiny wnaeth gam â ni. Maddau i ni ein bod yn cadw cyfrif o gam, yn coleddu dicter mor aml. Os y gadewaist "esiampl" i ni caniatâ i ni dy efelychu a'th ddilyn heddiw.

A gweddïwn drachefn dros ein teuluoedd, drosom ein hunain y byddet ti'n ein cadw'n ddiogel yn dy law – beth bynnag a ddaw. Er nad wyt ti wedi addo i ni y byddwn yn osgoi bob helbul rwyt ti wedi addo bod gyda ni. Helpa fi i gredu hynny, i bwyso ar hynny, ac i obeithio yn hynny.

Gweddïwn dros ysbytai, dros feddygon a nyrsys, dros bob un sy'n cyflawni gwaith holl bwysig – er nad oeddem wedi ei gwerthfawrogi cyn hyn.

Gweddïwn dros ein byd a thros ei dyfodol. Nid yn unig y Cofid 19 ond y cynhesu byd-eang a'r heriau sy'n ein hwynebu. Cyflwynwn i ti arweinwyr y gwledydd. A chyflwynwn i ti ein byd. Dduw da, trugarha wrthym. Trugarha wrthym. Trugarha wrthym.
Er mwyn Iesu Grist.

**GWEDDI'R ARGLWYDD.**

**EMYN – Caneuon Ffydd 118**
**Canaf yn y bore**